Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF

**Uwch Dribiwnlys**
Siambr Apeliadau Gweinyddol

Stamp swyddfa (dyddiad cyrraedd)

UT1

# Cais am ganiatâd i apelio a hysbysiad o apêl gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Hawl Cymdeithasol)

Gwneud cais i Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad pan fyddwch yn meddwl bod y Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi gwneud gwall cyfreithiol.

## Cyn i chi wneud cais

Rhaid i chi wneud cais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf am ganiatâd i apelio cyn llenwi'r ffurflen hon. Defnyddiwch y ffurflen hon naill ai i:

- wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio os yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi gwrthod rhoi caniatâd i chi apelio, neu os gwrthodwyd derbyn eich cais am eich bod yn hwyr
  neu
- apelio i'r Uwch Dribiwnlys os yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi rhoi caniatâd i chi apelio

## Sut i wneud cais

Anfonwch y cais hwn i swyddfa'r Uwch Dribiwnlys **dim hwyrach nag un mis calendr** ar ôl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf anfon atoch y penderfyniad ar y cais am ganiatâd i apelio. Gallwch ofyn am fwy o amser yn **Adran 5** y ffurflen hon.

## Os ydych angen help

Cysylltwch â'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Apeliadau Gweinyddol) os oes arnoch angen help gyda'r cais hwn neu os oes gennych gwestiynau am y broses apelio. Ni all y swyddfa roi cyngor cyfreithiol i chi.

**Cymru a Lloegr**
020 7071 5662

**Yr Alban**
0131 271 4310

**Cyfarwyddyd pellach**
Efallai yr hoffech gysylltu â Chyngor ar Bopeth www.citizensadvice.org.uk neu sefydliad hawliau lles.

Efallai y gallwch gael **help cyfreithiol yn rhad ac am ddim gyda'ch apêl.** Bydd angen i chi fodloni'r amodau ariannol angenrheidiol. Gwiriwch a ydych yn gymwys:

**Cymru a Lloegr**
Defnyddiwch y gwiriwr cymorth cyfreithiol www.gov.uk/check-legal-aid 0345 345 4 345

**Yr Alban**
Cysylltwch â Bwrdd Cymorth Cyfreithiol yr Alban (SLAB) www.slab.org.uk/public/civil
0845 122 8686


©Hawlfraint y Goron 2024

# Adran 1 – Gwybodaeth am yr apelydd

**1.1** Manylion yr apêl

Cyfeirnod y Tribiwnlys Haen Gyntaf

**1.2** Dyddiad penderfyniad yr apêl

Diwrnod | Mis | Blwyddyn

**1.3** Manylion yr apelydd

Teitl

Enw(au) cyntaf

Enw olaf

Dyddiad geni

Diwrnod | Mis | Blwyddyn

Rhif Yswiriant Gwladol

**1.4** Cyfeiriad

Llinell gyntaf y cyfeiriad

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**Nodyn**

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llaw, defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU os gwelwch yn dda.

Defnyddiwch ddalen arall o bapur os nad oes digon o le i chi ddweud popeth.

Rhowch eich enw a chyfeirnod yr apêl ar frig unrhyw ddalennau ychwanegol.

**Nodyn 1.1**

Bydd cyfeirnod y Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi'i nodi ar y llythyr penderfyniad.

**Nodyn 1.3**

Pan fydd plentyn neu unigolyn arall na all weithredu drostynt eu hunain yn apelio, rhowch fanylion yr unigolyn hwnnw yma.

Gallwch nodi enw cynrychiolydd yn Adran 3 ac enw penodai yn Adran 4.

**1.5** Manylion cyswllt

Rhif ffôn

Rhif ffôn symudol (dewisol)

Cyfeiriad e-bost

**Nodyn 1.5**

Os nad ydych eisiau i'r Uwch Dribiwnlys gysylltu â chi drwy e-bost, gadewch y blwch hwn yn wag. Gallwch dal ofyn i gopïau o unrhyw ddogfennau gael eu hanfon atoch drwy e-bost.

**1.6** Rwy'n dymuno cael penderfyniad y tribiwnlys:

- ☐ Drwy e-bost
- ☐ Drwy'r post

**Nodyn 1.6**

Dewiswch sut yr hoffech gael penderfyniad y tribiwnlys. Gallwch ddewis y ddau.

## Adran 2 – Achosion Cynnal Plant (yn unig)

**Nodyn ar Adran 2**

Mae'r adran hon ar gyfer achosion cynnal plant yn unig.

**2.1** Enw'r unigolyn sy'n gofalu am y plentyn neu'r plant

Enw(au) cyntaf

Enw olaf

**2.2** Enw'r rhiant di-breswyl

Enw(au) cyntaf

Enw olaf

# Adran 3 – Gwybodaeth am gynrychiolydd yr apelydd

**3.1** Manylion cynrychiolydd yr apelydd

Enw(au) cyntaf

Enw olaf

Enw'r cwmni neu sefydliad

**3.2** Cyfeiriad

Llinell gyntaf y cyfeiriad

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**3.3** Cyfeirnod ar gyfer gohebiaeth (dewisol)

**3.4** Manylion cyswllt

Rhif ffôn

Rhif ffôn symudol (dewisol)

Cyfeiriad e-bost

**Nodyn ar Adran 3**

Cynrychiolydd yw rhywun sy'n gweithredu ar eich rhan mewn capasiti ffurfiol.

Gallai fod yn gyfreithiwr, yn sefydliad fel Cyngor ar Bopeth, sefydliad hawliau lles neu'n ffrind a fydd yn delio â'ch achos ar eich rhan.

Bydd yr Uwch Dribiwnlys yn gohebu â'ch cynrychiolydd yn unig.

# Adran 4 – Gwybodaeth am y penodai

**4.1** Manylion penodai'r apelydd (dewisol)

Enw(au) cyntaf

Enw olaf

Enw'r cwmni neu sefydliad (os o gwbl)

**4.2** Cyfeiriad

Llinell gyntaf y cyfeiriad

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**4.3** Cyfeirnod ar gyfer gohebiaeth (dewisol)

**4.4** Manylion cyswllt

Rhif ffôn

Rhif ffôn symudol (dewisol)

Cyfeiriad e-bost

**Nodyn ar Adran 4**

Penodai yw rhywun sydd wedi'i benodi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), neu gorff arall sy'n gwneud penderfyniadau, i weithredu oherwydd bod yr apelydd yn blentyn neu'n unigolyn na all weithredu drostynt eu hunain oherwydd, er enghraifft anabledd corfforol neu gyflwr iechyd meddwl.

Os ydych wedi'ch penodi i weithredu ar ran yr apelydd yna dylech anfon atom gopi o'r hysbysiad penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau (neu gorff arall sy'n gwneud penderfyniadau, er enghraifft yr awdurdod lleol mewn achos budd-dal tai).

**Nodyn 4.4**

Os nad ydych eisiau i'r Uwch Dribiwnlys gysylltu â chi drwy e-bost, gadewch y blwch hwn yn wag. Gallwch dal ofyn i gopïau o unrhyw ddogfennau gael eu hanfon atoch drwy e-bost.

## Adran 5 – Rhesymau dros oedi

**5.1** Rwyf yn dymuno bod y terfyn amser ar gyfer gwneud y cais yn cael ei ymestyn

☐ Nac ydw

☐ Ydw, rhowch y rhesymau dros pam eich bod angen rhagor o amser i wneud y cais

**5.2** Rwyf wedi cynnwys yr holl ddogfennau gofynnol o'r rhestr ar dudalen 10

☐ Do

☐ Naddo, eglurwch pam nad yw dogfennau wedi'u cynnwys

**Nodyn ar Adran 5**

Rhaid i chi anfon y ffurflen hon i swyddfa'r Uwch Dribiwnlys fel ei bod yn cyrraedd y swyddfa o fewn un mis calendr i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf anfon atoch yr hysbysiad o benderfyniad ar eich cais am ganiatâd i apelio.

Os yw'n debygol y bydd yn cyrraedd y tribiwnlys ar ôl yr amser hwn, mae'n rhaid i chi ofyn i'r tribiwnlys ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud y cais, gan roi rhesymau llawn dros ei gyflwyno'n hwyr.

Bydd barnwr yn ystyried eich rhesymau ac yn penderfynu a fydd yn ymestyn y terfyn amser ai peidio.

Mae'n bwysig eich bod yn egluro'r rhesymau yn fanwl.

Os oes angen, defnyddiwch ddalen ar wahân i barhau, gan roi eich enw a chyfeirnod yr apêl ar frig y ddalen.

Os ydych yn gwneud hyn â llaw, defnyddiwch lythrennau bychain.

# Adran 6 – Rhesymau dros eich apêl

**6.1** Dywedwch wrthym pa wall cyfreithiol rydych yn meddwl y mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi'i wneud

**Nodyn ar Adran 6**
Mae'n rhaid i chi egluro pam rydych yn meddwl bod penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn wallus o safbwynt cyfreithiol.

Mae enghreifftiau o gamgymeriadau a allai olygu bod y penderfyniad yn wallus o safbwynt cyfreithiol yn cynnwys:

- nid yw'r tribiwnlys wedi cymhwyso'r gyfraith gywir neu mae wedi dehongli'r gyfraith yn anghywir.
- nid oedd gan y tribiwnlys dystiolaeth, neu ddigon o dystiolaeth, i gefnogi ei benderfyniad.
- ni roddodd y tribiwnlys resymau digonol dros y penderfyniad.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn, ac mae'n bosib fod penderfyniad y tribiwnlys yn wallus o safbwynt cyfreithiol am reswm arall. Dylech egluro pam fod y penderfyniad yn eich achos yn wallus o safbwynt cyfreithiol mewn cymaint o fanylder â phosibl.

Os ydych yn gwneud hyn â llaw, defnyddiwch lythrennau bychain.

# Adran 7 - Cais am wrandawiad llafar o gais am ganiatâd i apelio

**7.1** Ydych chi eisiau gwrandawiad llafar o'ch cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys?

☐ Nac oes

☐ Oes, eglurwch eich rhesymau

**Nodyn ar Adran 7**

Os gwrthodwyd eich cais am ganiatâd i apelio gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf, gallwch ofyn am wrandawiad llafar.

Gallai gwrandawiad llafar fod wyneb yn wyneb, drwy fideo neu dros y ffôn.

Ni fydd barnwr yr Uwch Dribiwnlys o reidrwydd yn caniatáu eich cais am wrandawiad llafar ar y cam hwn. Penderfynir ar y mwyafrif o geisiadau am ganiatâd i apelio gan y barnwr yn ystyried eich cais ar sail y papurau y bu i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf eu hystyried.

Os rhoddir caniatâd i chi apelio gan farnwr yr Uwch Dribiwnlys, cewch gyfle arall i ofyn am wrandawiad llafar o'ch apêl.

Os bydd y barnwr yn caniatáu eich cais am wrandawiad llafar, yna gan amlaf fe'i gynhelir yn Birmingham, Caerdydd, Caeredin, Exeter, Leeds, Llundain, Manceinion neu Newcastle.

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llaw, defnyddiwch lythrennau bychain.

## Adran 8 – Llofnod

Mae'n rhaid i chi neu'ch penodai lofnodi'r ffurflen hon os ydych yn dymuno apelio i'r Uwch Dribiwnlys, oni bai eich bod yn cael eich cynrychioli gan gynrychiolydd cyfreithiol. Mae cynrychiolydd cyfreithiol yn gyfreithiwr, yn fargyfreithiwr neu'n weithredwr cyfreithiol siartredig.

☐ **Rwy'n gwneud cais am ganiatâd** i apelio yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf

☐ **Rwy'n apelio yn erbyn penderfyniad** y Tribiwnlys Haen Gyntaf

**Awdurdodiad**

☐ Rwyf yn awdurdodi fy nghynrychiolydd, a enwir yn Rhan 3 i weithredu ar fy rhan ym mhob achos gerbron yr Uwch Dribiwnlys.

**Yr apelydd neu penodai'r apelydd**

☐ Apelydd

☐ Penodai'r apelydd

**Llofnod y cynrychiolydd cyfreithiol**

Llofnod cyfreithiwr, bargyfreithiwr neu weithredwr cyfreithiol siartredig

**Dyddiad**

Diwrnod Mis Blwyddyn

Enw(au) cyntaf

Enw olaf

Enw ffyrm neu gwmni cynrychiolydd cyfreithiol yr apelydd (dewisol)

Os ydych yn llofnodi ar ran ffyrm neu gwmni, nodwch y safle neu'r swydd a ddelir (dewisol)

**Nodyn ar y llofnod**

Dim ond cynrychiolydd cyfreithiol all apelio i'r Uwch Dribiwnlys fel cynrychiolydd yr apelydd heb awdurdodiad.

Os nad yw'r cynrychiolydd cyfreithiol yn gyfreithiwr, yn fargyfreithiwr neu'n weithredwr cyfreithiol siartredig, rhaid i'r apelydd (neu'r penodai) lofnodi'r ffurflen.

**Nodyn ar yr awdurdodiad**
Gadewch yn wag os nad oes gennych gynrychiolydd neu os ydych yn gynrychiolydd cyfreithiol sy'n llenwi'r ffurflen hon ar ran cleient.

**Nodyn ar lofnodi**
Llofnodwch neu teipiwch eich enw yn y blwch llofnod.

## Rhaid i chi anfon y dogfennau canlynol gyda'r ffurflen hon

- [ ] copi o hysbysiad o benderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf
- [ ] copi o ddatganiad ysgrifenedig o'r rhesymau penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf
- [ ] copi o hysbysiad o benderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf ar eich cais am ganiatâd i apelio

**Os nad yw'r holl ddogfennau hyn gennych, gallwch dal wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen hon.**

## Cysylltu â Swyddfa'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Apeliadau Gweinyddol)

Os oes gennych gynrychiolaeth gyfreithiol, mae'n rhaid i chi ddefnyddio gwasanaeth E-Ffeilio Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF i anfon y ffurflen hon ac unrhyw ddogfennau ategol.

**I gofrestru a chael mynediad i'r Gwasanaeth E-Ffeilio ewch i:**

https://efile.cefile-app.com/login

**Am arweiniad, cefnogaeth a gwybodaeth am y Gwasanaeth E-Ffeilio ewch i:**

www.gov.uk/guidance/hmcts-e-filing-service-for-citizens-and-professionals

Ar gyfer y rhai hynny nad oes ganddynt gynrychiolaeth gyfreithiol, y dull a ffafrir yw'r gwasanaeth E-Ffeilio.

Fel dewis arall, gall partïon heb gynrychiolaeth anfon y ffurflen wedi'i llenwi a'i llofnodi drwy e-bost neu'r post i'r swyddfa briodol a ddangosir isod.

### Cyfeiriad yn Lloegr

Yr Uwch Dribiwnlys
(Siambr Apeliadau Gweinyddol)
5ed Llawr Rolls Building
7 Rolls Buildings
Fetter Lane
Llundain
EC4A 1NL

**I'w defnyddio gan weithwyr proffesiynol cyfreithiol:** DX160042 STRAND 4

**Rhif ffôn:** 020 7071 5662

**Cyfeiriad ebost:** adminappeals@justice.gov.uk

Os cynhaliwyd eich gwrandawiad Tribiwnlys Haen Gyntaf yn Lloegr, dylech anfon eich ffurflen i'r cyfeiriad yn Lloegr.

### Cyfeiriad yng Nghymru

Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys (Cymru)
Canolfan Gyfiawnder Sifil
2 Stryd y Parc
Caerdydd

Os cynhaliwyd eich gwrandawiad Tribiwnlys Haen Gyntaf yng Nghymru, neu os ydych yn byw yng Nghymru, gallwch anfon y ffurflen i'r cyfeiriad yng Nghymru neu'n Lloegr.

CF10 1ET

**Rhif ffôn:** 029 2037 6460

**Cyfeiriad ebost:** adminappeals@justice.gov.uk

**Cyfeiriad yn yr Alban**

Yr Uwch Dribiwnlys
(Siambr Apeliadau Gweinyddol)
George House
126 George Street
Caeredin
EH2 4HH

**Rhif ffôn:** 0131 271 4310

**Cyfeiriad e-bost:** UTAACMailbox@justice.gov.uk

Os cynhaliwyd eich gwrandawiad Tribiwnlys Haen Gyntaf yn yr Alban, dylech anfon eich ffurflen i'r cyfeiriad yn yr Alban.

## Y camau nesaf

Byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau bod eich achos wedi'i gofrestru.

**Os nad ydych wedi cael cadarnhad o hyn o fewn 14 diwrnod, cysylltwch â'r swyddfa berthnasol.**

I gael gwybodaeth am sut mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF yn prosesu ac yn storio eich data, ewch i: https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personalinformation-charter